

LEISIAU COLL, CYNNYDD COLL



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales



LLAISIAU COLL, CYNNYDD COLL

Adroddiad flwyddyn wedi cyhoeddi “Lleisiau Coll”, adolygiad statudol y Comisiynydd Plant o ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal, rhai sy’n gadael gofal a phlant mewn angen.

Darparu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol: Adolygiad o’r trefniadau comisiynu.

CYFLWYNIAD

Ym mis Mawrth 2012 fe gyhoeddais i ‘Lleisiau Coll’, adolygiad o wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal, rhai sy’n gadael gofal, a phlant mewn angen yng Nghymru. Roeddwn i am weld a yw’r trefniadau ar gyfer eiriolaeth yn effeithiol, ac i ba raddau, o ran cryfhau a hyrwyddo hawliau a diogelu lles plant a phobl ifanc. (Atodiad 1 - Cylch Gorchwyl).

Tynnodd fy adolygiad sylw at ddiffygion y ddarpariaeth oedd ar gael 12 mis yn ôl. Wrth gloi fy adolygiad, fe gyflwynais 29 o argymhellion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a’r swyddfa fy hun. O dan fy mhwerau a’r swyddogaethau oedd yn deillio o Ddeddf Safonau Gofal a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001, roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ymateb yn ysgrifenedig i’r argymhellion hynny, yn amlinellu sut roeddent yn bwriadu eu rhoi ar waith.

O’u ymateb roedd yn amlwg bod llawer o ewyllys da ymhlith y llywodraeth, awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth i wneud pethau’n iawn, ond bod yr hinsawdd economaidd gyfredol yn gwneud y sefyllfa’n eithriadol o heriol. Nododd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eu bod yn gweithio’n galed i roi sylw i’r argymhellion yn “Lleisiau Coll”. Fodd bynnag, rwyf wedi cael fy siomi gan gyflymdra’r newid. Mae’r cynnydd wedi bod yn rhy araf, a goblygiad hynny yw bod plant a phobl ifanc yn dal heb dderbyn y manteision a allai ddod i’w rhan yn sgîl cymorth eiriolaeth da, drwy ddarparu gwell ymyriadau a chanlyniadau.

I nodi pen-blwydd cyntaf “Lleisiau Coll” roeddwn wedi bwriadu cynnal adolygiad llawn o’r cynnydd tuag at yr argymhellion yn yr adroddiad, ond rhoddais ystyriaeth hefyd i’r gofynion roedd Llywodraeth Cymru wedi eu gosod ar awdurdodau lleol yn ddiweddar i ddarparu gwybodaeth am y ddarpariaeth eiriolaeth statudol. Roedd Llywodraeth

Cymru wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2012, yn gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth ynghylch sut roedd yr awdurdod lleol yn cyflawni’r gofyniad statudol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal, rhai sy’n gadael gofal, a phlant mewn angen, gan ofyn eu bod yn ymateb erbyn 18 Ionawr 2013. Dewisais, felly, ymgymryd â darn o waith oedd â ffocws mwy penodol, ac na fyddai’n gosod galwadau afresymol ar awdurdodau lleol. Rwy’n bwriadu cynnal adolygiad llawn o argymhellion “Lleisiau Coll” erbyn ail ben-blwydd yr adroddiad ym mis Mawrth 2014.

Yn ystod fy adolygiad, cafwyd bod y gwahanol fodolau comisiynu yn creu darpariaeth anghyson iawn o ran eiriolaeth ledled Cymru. Roedd hyn yn golygu nad oedd plant a phobl ifanc oedd â hawl i dderbyn gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol yn gallu gwneud hynny. Yn wir, mae fy ngwasanaeth cyngor a chymorth yn dal i ddod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc sy’n gymwys i dderbyn eiriolaeth broffesiynol annibynnol, ac a allai elwa o gymorth eiriolaeth, ond sydd heb gael cynnig eu hawl statudol.

Yn achos 16 o’r 22 o ardaloedd awdurdod lleol, roedd ymatebion yr awdurdodau lleol i ‘Lleisiau Coll’ wedi cyfeirio at gynlluniau datblygu, gan ddangos y byddai eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cael ei ddarparu ar draws ardaloedd awdurdodau lleol, gyda contractau tymor hwy a mwy sefydlog, yn unol ag argymhelliaid Llywodraeth Cymru.

Ddeuddeg mis wedi cyhoeddi “Lleisiau Coll” roeddwn am wybod a oedd y cynlluniau datblygu hynny’n cael eu rhoi ar waith, a chanfod a yw eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol ar contractau tymor hwy, gan sicrhau darpariaeth decach i’r grwpiau hyn o blant a phobl ifanc sy’n agored i niwed.

METHODOLËG

Hysbysir yr adroddiad hwn gan gyswllt â phob un o 22 awdurdod lleol Cymru, y tri phrif ddarparwr eiriolaeth, a thrafodaeth a chyswllt parhaus gyda Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn darparu ciplun o'r sefyllfa gyfredol o ran comisiynu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ym mis Mawrth 2013. Mae'n amlygu'r materion y mae awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth yn eu hwynebu mewn hinsawdd ariannol arbennig o heriol er mwyn sicrhau bod eiriolaeth yn cael ei darparu i blant a phobl ifanc.

Anfonwyd holiadur at bob un o'r 22 awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth ynghylch eu trefniadau comisiynu (Atodiad 2).

Cynhaliwyd ymweliadau â'r awdurdodau lleol canlynol i gael trafodaeth fwy manwl am y materion a godwyd yn yr holiadur:

- a) **Pen-y-bont ar Ogwr** – Awdurdod lleol arweiniol prosiect comisiynu eiriolaeth rhanbarthol ar draws pum awdurdod lleol a dau fwrdd iechyd lleol yn Ne Cymru.
- b) **Sir Ddinbych** – Awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru sydd â phrofiad o gomisiynu gwasanaeth ar y cyd ar draws ardaloedd tri awdurdod lleol gyda gwasanaeth eiriolaeth NYAS.
- c) **Sir Gaerfyrddin** – Awdurdod lleol sy'n comisiynu contract annibynnol gyda Gweithredu dros Blant.
- d) **Casnewydd** – Awdurdod lleol sy'n comisiynu contract annibynnol gyda Tros Gynnal.

Cynhaliwyd cyfweiliadau strwythuredig ar wahân hefyd gyda'r tri darparwr eiriolaeth sydd â chontractau gyda'r 22 awdurdod lleol ar hyn o bryd.

Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod safbwyntiau a fynegwyd gan y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn ei adroddiad etifeddiaeth i Lywodraeth Cymru (Rhagfyr 2012)¹. Sefydlwyd y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru yn 2009 i ddarparu trosolwg strategol annibynnol o ddatblygu a darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Cynhyrnodd y Bwrdd, a ddiddymwyd yn 2012, adroddiad etifeddiaeth i Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys sylwadau am y trefniadau comisiynu cyfredol. Rwy'n dymuno cofnodi fy ngwerthfawrogiad i aelodau'r Bwrdd am eu hymroddiad ac am symud ymlaen gydag argymhellion Lleisiau Coll ynghylch rôl y Bwrdd.

¹ Adroddiad Etifeddiaeth y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol 2012 <http://new.wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/legacy/?lang=en>

CEFNIDR

Ym mis Mawrth 2007, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghoriad ar "Fodel Gwasanaeth Newydd ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc". Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno model ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth ar sail egwyddor o gomisiynu rhanbarthol trwy Bartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc. Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddwyd "Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc" ym mis Mehefin 2009, yn lasbrint ar gyfer awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth.

Cyflwynodd dogfen 2009 ddiben model Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r hyn fyddai'n ofynnol wrth baratoi ar gyfer mesurau, rheoliadau a chyfarwyddiadau newydd oedd i'w rhoi yn eu lle yn 2010, ac a fyddai'n atgyfnerthu fframwaith cyfreithiol y model. Byddai canllawiau statudol yn cael eu cynhyrchu bryd hynny i gefnogi partneriaid i roi'r model ar waith, a byddent yn cynnwys arweiniad ar gomisiynu. Anogwyd rhanddeiliaid i ystyried gosod sylfeini ar gyfer y newidiadau hyn mewn da bryd.

Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y ddogfen ymgynghori ar y canllawiau statudol "Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc 0-25 yng Nghymru". Yn y bôn, fersiwn fanylach o ganllawiau 2009 oedd y ddogfen hon, ac roedd yn egluro'r hyn 'oedd yn ofynnol' yn hytrach na'r hyn 'fyddai'n ofynnol' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid er mwyn gwreiddio mesurau, rheoliadau a chyfarwyddiadau diweddar a fyddai'n atgyfnerthu fframwaith cyfreithiol y model eiriolaeth.

Nod y canllawiau statudol arfaethedig oedd cefnogi partneriaid i roi model Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith, gan gynnwys comisiynu gwasanaethau eiriolaeth arbenigol integredig trwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc.

Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnwys arweiniad penodol ar gomisiynu er mwyn cefnogi Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd Ebrill 2011. Yn ystod ein cyfnod o gasglu tystiolaeth ar gyfer "Lleisiau Coll" yn hydref 2011, roedd yr holl awdurdodau lleol a'r darparwyr eiriolaeth y buom ni'n cwrdd â nhw yn aros i'r canllawiau statudol terfynol gael eu cyhoeddi, er mwyn eu helpu i ddatblygu eu darpariaeth eiriolaeth yn unol â'r model a argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyn ail-gomisiynu eu gwasanaethau presennol, roedd nifer o awdurdodau lleol yn estyn eu contractau gyda darparwyr eiriolaeth am gyfnod o 12 mis, nes bod y canllawiau statudol wedi'u cyhoeddi.

Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol terfynol, ac maent wedi dweud nad ydynt bellach yn bwriadu gwneud hynny. Yn hytrach, ym mis Rhagfyr 2012, yn dilyn cyhoeddi "Lleisiau Coll", ysgrifennodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant Llywodraeth Cymru at bob awdurdod lleol yn eu hatgoffa y dylent fod yn gweithio'n unol â Rheoliadau Gwasanaethau Eiriolaeth a Gweithdrefn Sylwadau (Plant)(Cymru) 2004. Er bod hyn yn atgoffa awdurdodau lleol am eu cyfrifoldebau statudol, nid yw'r rheoliadau'n rhoi arweiniad ynghylch gweithredu'r model darparu gwasanaeth a ffafir gan Lywodraeth Cymru. Mae Penaethiaid Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant wedi dweud wrth fy swyddfa y byddent yn croesawu canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru ynghylch gweithredu'r model a ffafir ar gyfer darparu gwasanaeth eiriolaeth.

Yn ystod y chwe blynedd ers cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori wreiddiol ar fodel a ffafir ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, bu llawer o drafod a dadlau am y model arfaethedig, ac am y trefniadau comisiynu mwyaf priodol. Mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cynnal ei ymchwiliad ei hun i wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru (2008), craffu ar ddatblygiadau o ran darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru (2009), ac adolygiad pellach ar ddatblygiadau o ran darparu gwasanaethau eiriolaeth (2010). Mae hefyd wedi cyflwyno nifer o argymhellion i Lywodraeth yng nghyswllt y model a darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae'r ddadl yn parhau, ac yn ystod ymweliadau diweddar gan fy swyddogion ag awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, roeddem yn dal i wynebu cwestiynau ynghylch dyddiad cyhoeddi'r canllawiau statudol, yn enwedig gan fod y canllawiau drafft yn cyfleu negeseuon a disgwyliadau clir iawn yng nghyswllt datblygu gwasanaeth eiriolaeth.

PERSPECTIF LLYWODRAETH CYMRU

Wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer "Lleisiau Coll" ac yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn, cyfeiriodd awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth at y ddwy ddogfen gyfarwyddyd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc.

Roedd y canllawiau ymgynghorol, "Canllaw i'r Model ar gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc" (Mehafin 2009) a'r ddogfen ymgynghori ar y canllawiau statudol, "Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc 0-25 yng Nghymru" (Ionawr 2011) fel ei gilydd yn amlinellu model clir ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru, a disgrifiwyd pwrpas y model a'r hyn oedd yn ofynnol i wreiddio mesurau, rheoliadau a chyfarwyddiadau a fyddai'n atgyfnerthu fframwaith cyfreithiol y model. Mae awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth wedi dweud yn gyson wrth fy swyddogion pa mor bwysig yw'r dogfennau hyn yn eu golwg hwy, yn enwedig y ddogfen ymgynghori ar y canllawiau statudol.

Er bod rhai awdurdodau lleol wedi dechrau datblygu gwasanaethau yn unol â'r model a awgrymwyd yn y canllawiau drafft, mae eraill wedi bod yn fwy gochelgar wrth ailgyflunio gwasanaethau.

Rwy'n dal i deimlo rhwystredigaeth a siom bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chyfleu wrth awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth beth sydd wedi digwydd i ddogfen ymgynghori 2011, a pha gynlluniau sydd ganddynt ar gyfer cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig.

Yn ymateb ysgrifenedig cychwynnol Llywodraeth Cymru i "Lleisiau Coll" – Argymhelliad 11:

"Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau clir a phendant ar gomisiynu eiriolaeth annibynnol i awdurdodau lleol",

dywedodd Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar y pryd, ar ran Llywodraeth Cymru:

"Fe gyflwynais ganllawiau comisiynu drafft ar gyfer ymgynghori ym mis Ionawr 2011, a chawsant dderbyniad da iawn. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r sefyllfa bartneriaeth wedi newid yn sylweddol, ac mae hynny wedi effeithio ar y model comisiynu roeddwn i'n ei gynig. Nid oes bellach Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn ardal pob awdurdod lleol, ac felly ni allaf bellach ddisgwyl iddynt hwy gomisiynu gwasanaethau integredig.

Fel y gwyddoch, rydym wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r dull strategol o gomisiynu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol ac ar gyfer plant, fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol. Byddwn yn ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd yn 2011 fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

Yn y cyfamser byddaf yn anfon llythyr at awdurdodau lleol yn fuan yn eu hatgoffa am eu dyletswydd o ran darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol i'r grŵp hwn o blant a phobl ifanc, sy'n agored i niwed. Bydd y llythyr yn eu hatgoffa am y canllawiau sy'n bodoli, y ddeddfwriaeth sy'n sylfaen i hynny, a'r disgwyliadau comisiynu a gafwyd yng nghanllawiau ymgynghori 2009, ac wedi hynny yn y canllawiau statudol drafft yn 2011 (Mehafin 2012)."

Yn y llythyr a anfonwyd at y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2012 gan Lywodraeth Cymru nid oedd sôn am ganllawiau 2009 na chanllawiau statudol drafft 2011, ac nid yw'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yn fy marn i, yn darparu eglurder i awdurdodau lleol yng nghyswllt comisiynu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol.

Bu "Lleisiau Coll" yn tynnu sylw at y gwelliannau sylweddol oedd yn angenrheidiol

i gefnogi mynediad plant a phobl ifanc at eiriolaeth. Mae eiriolaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth alluogi plant a phobl ifanc i ddiogelu eu hunain trwy ymarfer eu hawliau fel yr amlinellwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn benodol yng nghyswllt cael clywed eu lleisiau, yn unol ag Erthygl 12.

Mae Adran 159 o'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn efelychu'r ddarpariaeth yn adran 26A o Ddeddf Plant 1989 yng nghyswllt cymorth i bobl sy'n cyflwyno sylwadau, ond nid yw'n cyfeirio'n benodol at wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol. Fel y nodais yn fy ymateb i'r ymgynghoriad, nid yw'r Bil fel y mae wedi'i ddraffio ar hyn o bryd yn cyflawni'r bwriad i ddarparu llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i blant y mae angen gofal neu gefnogaeth arnynt.

Er bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r rheidrwydd sydd arnynt i ddarparu eiriolaeth ar gyfer y rhai sydd â hawl statudol i hynny, mae awdurdodau lleol yn dal yn ansicr o ran pa fath o wasanaeth y dylent ei gomisiynu, yn enwedig yng nghyswllt darparu gwasanaeth cyffredinol a chynnwys iechyd ac addysg fel partneriaid mewn gwasanaeth a gomisiynir ar y cyd. Mae hyn wedi arwain at yr hyn a ddisgrifwyd gan un darparwr eiriolaeth fel: "cymysgedd didrefn o wasanaethau eiriolaeth...gyda rhai awdurdodau lleol yn symud tuag at ddarpariaeth gyffredinol, a rhai ddim."

Yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth ar gyfer "Lleisiau Coll", bu awdurdodau lleol yn arddangos amrywiaeth o ddulliau o ddarparu gwasanaethau eiriolaeth, yn amrywio o ddarpariaeth gyffredinol gyda ffocws cryf ar gyfranogiad a hawliau plant, i ddull mwy traddodiadol wedi'i seilio ar hawliau statudol.

Ymddengys bod comisiynu ar y cyd ar draws ardaloedd gwasanaethau cymdeithasol i blant mewn awdurdodau lleol yn mynd rhagddo yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, tra bod yr ymgysylltu â iechyd ac addysg yn ymddangos

yn llawer mwy bylchog. Roedd "Lleisiau Coll" yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen, er i awdurdodau lleol gael eu holi ynghylch unrhyw wasanaeth yr oeddent yn ei gomisiynu ar y cyd ag addysg neu iechyd. Yn y mwyafrif o ardaloedd awdurdod lleol nid oedd partneriaethau o'r fath yn bodoli, ac roedd yn aneglur pa wasanaethau oedd yn cael eu darparu gan iechyd ac addysg i gyflawni'r gofynion statudol o ran darparu gwasanaeth eiriolaeth i blant a phobl ifanc agored i niwed.

Mae'n aneglur i mi, yn sgîl y newidiadau sydd wedi digwydd i bartneriaethau awdurdod lleol, a datblygiad cynlluniau sengl integredig ledled Cymru, pwy sydd bellach yn gyfrifol am ddarparu atebolrwydd ac arweiniad strategol yn achos gwasanaeth fel eiriolaeth. Yn wyneb y pwys y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar hawliau plant a'r ymrwymiad a wnaed ganddi i wrando ar lais y plentyn, dylai fod yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i awdurdodau lleol trwy gyhoeddi datganiad clir ynghylch ei bwriadau ar gyfer darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Yn wir, bu Llywodraeth Cymru yn cydnabod, yn ei hymateb ysgrifenedig i "Lleisiau Coll" fod y canllawiau comisiynu wedi cael derbyniad da, ac rwy'n sicr y gellid cynhyrchu fersiwn ddiwygiedig o'r canllawiau gan roi sylw i'r newidiadau yn y tirlun partneriaeth.

Mae'n amlwg bod canllawiau wedi'u diweddarau yn angenrheidiol i helpu awdurdodau lleol gyda threfniadau comisiynu. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r canllawiau statudol a'r model ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth, ac i roi'r arweiniad yr oeddwn i'n ei geisio wrth wneud yr argymhellion canlynol yn "Lleisiau Coll".

"Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cyfeiriad strategol clir i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod pob plentyn sydd yn statudol gymwys i dderbyn eiriolaeth broffesiynol annibynnol, ble bynnag yng Nghymru y mae'n

byw, yn gallu cael mynediad i wasanaeth o'r fath trwy weithdrefnau ac ymarfer clir a chyson (Argymhelliad 15)" a

"Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau clir, pendant ar gomisiynu eiriolaeth annibynnol i awdurdodau lleol (Argymhelliad 11)"

Roedd model Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu gwasanaeth eiriolaeth yn rhoi arweiniad clir iawn i'r rhai oedd yn comisiynu gwasanaethau arbenigol integredig, gan gynnwys y canlynol:

- Galluogi caffael (prynu) yr holl wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed mewn ardal bartneriaeth mewn modd cydlynus trwy un asiantaeth arweiniol;
 - Asiantaethau comisiynu ym mhob partneriaeth i gytuno i gyfuno cronfeydd ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth gyda phartneriaid;
- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (neu'r trefniadau newydd sydd wedi'u disodli) i hwyluso trefniadau comisiynu ar y cyd sy'n cwmpasu dwy bartneriaeth neu fwy;
- Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc (neu'r trefniadau newydd sydd wedi'u disodli) i ddarparu arweiniad cadarn, hybu cyfranogiad partneriaeth a chydlyniant ar draws eu hardal leol ac ar lefel ranbarthol neu is-ranbarthol er mwyn hwyluso comisiynu a darparu gwasanaethau eiriolaeth arbenigol integredig;
- Heb ragdybio y bydd y model yn arwain at un darparwr ar gyfer yr holl wasanaethau eiriolaeth ar draws rhanbarth neu is-ranbarth, bydd angen i wasanaethau gael eu cydlynu'n effeithiol i sicrhau hwylustod mynediad priodol i blant a phobl ifanc, a dealltwriaeth glir gan y rhai sy'n cyfeirio atynt. Y disgwyl yw mai'r ffordd orau i gyflawni hyn fydd trefnu un pwynt cyswllt cychwynnol – dull siop dan yr unto;

- Bydd angen i'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (neu'r trefniadau newydd sydd wedi'u disodli) oruchwylio comisiynu'r gwasanaethau eiriolaeth arbenigol integredig gan ddarparwr sector annibynnol trydydd parti, neu bartneriaeth neu gonsortiw m o ddarparwr;

- Argymhellir yn gryf gylch comisiynu o dair blynedd er mwyn caniatáu sefydlogrwydd a dilyniant i'r plant a'r bobl ifanc sy'n cyrchu'r gwasanaeth;

- Ni fernir bod yr arfer o "brynu yn y fan a'r lle" yn addas nac yn arfer da, ac mae hynny mewn cyferbyniad ag egwyddorion y model, er mai hwn fydd yr unig ddull y gellir ei fabwysiadu, o bosib, mewn amgylchiadau eithriadol;

- Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried dichonoldeb a'r angen am gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth arbenigol wedi'u targedu ar sail genedlaethol ar gyfer grwpiau penodol o blant a phobl ifanc a/ neu rai sydd â chwynion/materion hynod gymhleth;

- Disgwylir y bydd plant a phobl ifanc yn cyfranogi yn y broses o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau, yn ogystal ag adolygu gwasanaethau.

Er ein bod yn cydnabod bod y tirlun partneriaeth wedi ac yn newid yn sylweddol o'i gymharu â'r hyn oedd yn bodoli yn 2011, mae'r egwyddorion a amlinellwyd uchod yn dal yn berthnasol iawn ac mae modd eu cyflawni. Byddai fersiwn wedi'i hailddrafftio o'r canllawiau statudol yn darparu fframwaith clir i awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno canllawiau ar y model a ffafir ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth trwy gyhoeddi canllawiau statudol wedi'u diweddarau.

TREFNIADAU EIRIOLAETH ANNIBYNNOL AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMURU

Dangosodd y dadansoddiad o ymatebion awdurdodau lleol i "Lleisiau Coll" ym mis Mawrth 2012 fod 16 o blith 22 awdurdod lleol yn mynd ati'n rhagweithiol i ystyried trefniadau comisiynu newydd ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol, a'u bod yn bwriadu comisiynu gwasanaethau o'r fath yn ystod y flwyddyn nesaf. Yn ôl ymatebion yr awdurdodau lleol, roedd argymhellion eraill o "Lleisiau Coll" i gael eu gweithredu fel rhan o'r trefniadau comisiynu newydd.

Adeg casglu tystiolaeth ar gyfer "Lleisiau Coll" roedd gan 16 o'r 22 awdurdod lleol gontractau 12 mis neu lai gyda'u darparwr eiriolaeth, a dim ond 8 o'r 22 awdurdod oedd yn gweithredu gwasanaeth a gomisiynwyd yn rhanbarthol. Roedd yr orddibyniaeth hon ar gontractau tymor byr yn tanseilio sefydlogrwydd y ddarpariaeth a datblygiad gwasanaethau cadarn, gan effeithio yn ei dro ar ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc.

Yn ystod y 12 mis ers cyhoeddi "Lleisiau Coll" dim ond un contract newydd wedi'i gomisiynu ar y cyd, rhwng 3 awdurdod lleol, sydd wedi dod i fodolaeth, er bod cyd-drafod yn parhau ar hyn o bryd yn achos 13 o awdurdodau eraill.

Y sefyllfa yng Nghymru ym mis Mawrth 2013 yw: O blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru mae tri phrif ddarparwr eiriolaeth, Gweithredu dros Blant, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol (NYAS) a Tros Gynnal, sy'n darparu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol i blant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal, a phlant mewn angen.

Ar hyn o bryd mae gan Gweithredu dros Blant ddau gontract, gan ddarparu gwasanaeth eiriolaeth yn Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy, a hynny ar ffurf contractau ar wahân o fewn y ddau awdurdod.

Mae gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid

Cenedlaethol (NYAS) bedwar contract ar hyn o bryd, gan ddarparu gwasanaeth a gomisiynir ar y cyd i Ynys Môn/Gwynedd / Conwy yng Ngogledd-orllewin Cymru, i Sir y Fflint/Sir Ddinbych / Wrecsam yng Ngogledd-ddwyrain Cymru, ac i Flaenau Gwent/ Caerffili / Torfaen yng Ngwent, yn ogystal â darparu gwasanaeth unigol ar wahân i Fro Morgannwg.

Mae gan Tros Gynnal wyth o gontractau ar hyn o bryd, gan ddarparu contract a gomisiynir ar y cyd i Sir Benfro a Cheredigion, ac i Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Maen nhw hefyd yn darparu contractau unigol ar wahân i Gasnewydd, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr a Phowys.

Roedd canllawiau Llywodraeth Cymru yn 2009 a dogfen ymgynghori 2011 yn annog awdurdodau lleol i ystyried comisiynu gwasanaethau ar y cyd, ac mae tystiolaeth bod y mwyafrif o awdurdodau lleol wedi bod yn edrych ar yr opsiwn hwn yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yng Ngwent, mae tri awdurdod lleol wedi cytuno ar gontract dwy flynedd gydag NYAS, a fydd yn parhau tan fis Medi 2014, gyda'r posibilrwydd o'i estyn am ddwy flynedd arall.

Mae Sir Benfro a Cheredigion eisoes yn comisiynu gwasanaeth ar y cyd gyda Tros Gynnal a fydd yn parhau tan fis Mawrth 2014.

Mae'r chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru wrthi'n edrych ar y posibilrwydd o gael contract a gomisiynir ar y cyd ar draws pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol, ac maent am gynnwys addysg a iechyd yn bartneriaid yn y contract hwn. Mae'n dal yn ddyddiau cynnar o ran y cyd-drafod ynghylch y prosiect hwn, ac ni fyddent yn rhagweld gwasanaeth yn cael ei gomisiynu ar y cyd yn y dyfodol agos. Hefyd mae'r contractau cyfredol yn parhau tan fis Mawrth 2014.

Yn Ne Cymru, mae awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr wedi arwain prosiect i edrych ar

gomisiynu gwasanaeth eiriolaeth ar y cyd ar draws pum ardal awdurdod lleol (Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe) ac ardaloedd dau fwrdd iechyd lleol. Mae cyd-drafod estynedig rhwng asiantaethau partner wedi gohirio'r terfynau amser gwreiddiol ar gyfer gweithredu'r prosiect, ond y gobaith yw y bydd gwasanaeth yn cael ei gomisiynu erbyn mis Ebrill 2014.

Mae Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tydfil yn edrych ar y posibilrwydd o gomisiynu gwasanaeth ar y cyd, ac maen nhw wedi estyn eu contractau eiriolaeth presennol gyda'u darparwr tan fis Mawrth 2014 tra bod y trafodaethau hyn yn digwydd.

Nid oes gan y pedwar awdurdod lleol arall unrhyw gynlluniau i gomisiynu gwasanaeth ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill.

Dangosodd trafodaethau gyda Phenathiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Comisiynu mewn dau awdurdod sydd â chontractau annibynnol (Casnewydd a Sir Gaerfyrddin) fod comisiynu ar y cyd ar draws ardaloedd awdurdodau lleol wedi cael ei ystyried, ond na wnaed cynnydd yn hynny o beth, gan na welid ei fod er lles pennaf y gwasanaeth a ddarperid yn lleol.

Roedd un awdurdod wedi bod yn awyddus i ddatblygu gwasanaeth eiriolaeth a fyddai'n rhan bwysig o'i agenda cyfranogiad a hawliau plant, tra bod awdurdodau cymdogol yn awyddus i gomisiynu gwasanaeth eiriolaeth mwy traddodiadol. Roedd yr awdurdod arall am gadw ei berthynas agos gyda'i ddarparwr eiriolaeth, ac roedd yn teimlo y gallai hynny gael ei beryglu petaent yn rhan o bartneriaeth ehangach, a bod y berthynas rhwng y darparwr a'r awdurdod lleol yn cael ei rheoli o hirbell.

Un o ganlyniadau'r trafodaethau parhaus ynghylch contractau rhanbarthol mawr yw bod contractau presennol sy'n dod i ben yn cael eu hadnewyddu am gyfnodau cymharol

fyr. Mae hyn wedi arwain at bryder ymhlith darparwyr, er bod hynny wedi'i liniaru gan y ffaith bod y darparwyr, yn achos nifer o awdurdodau, wedi bod yn cyflawni'r contract ers nifer o flynyddoedd, ac nid yw hyn wedi effeithio ar y gwasanaeth i blant a phobl ifanc yn yr ardaloedd hynny.

Ar sail ein cyfweiliadau, mae'n eglur bod comisiynu gwasanaeth ar draws nifer o ardaloedd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn gallu bod yn broses sy'n galw am gryn dipyn o amser, ac sy'n achosi rhwystredigaeth ar brydiau. Gall y contractau presennol fod gyda gwahanol ddarparwyr, wedi eu hariannu mewn gwahanol ffyrdd, a gall fod gan awdurdodau lleol ofnion gwasanaeth amrywiol, a all arwain at wahaniaethau barn a thrafodaethau'n mynd i drafferthion. Ymhellach, gall diwyllianau gwahanol darpar asiantaethau partner, yn cynnwys iechyd ac addysg, arwain at anawsterau pellach wrth gyd-drafod.

O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bwysig bod partneriaid mewn unrhyw gydweithio arfaethedig yn penderfynu mewn da bryd a yw prosiect yn ddichonadwy, ac os nad ydyw, yn symud ymlaen i gomisiynu gwasanaethau'n unigol, neu gydag eraill sy'n ymroddedig i gomisiynu ar y cyd. Bydd estyn trafodaethau dibwrpas gyda phartneriaid anfodlon, gan ychwanegu at hyd y broses gomisiynu, yn cael effaith niweidiol ar y darparwr presennol ac ar ddatblygiad y gwasanaeth lleol.

Mae'n eglur bod y mwyafrif o awdurdodau lleol yn ceisio symud tuag at nod Llywodraeth Cymru, sef comisiynu rhanbarthol, yn y gobaith y bydd hyn yn arwain at gontractau tymor hwy, gan greu sefydlogrwydd a mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw pob awdurdod lleol yn cefnogi'r model hwn, ac yn hyn o beth byddwn yn cefnogi un o argymhellion y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn eu hadroddiad etifeddiaeth i Lywodraeth Cymru:

“Bod ymchwil gychwynnol yn digwydd i ganfod i ba raddau mae'r model newydd yn wir yn darparu gwell gwasanaethau a chwmpas, yn enwedig ar adeg o gyfyngiadau cyllidebol. Y prawf terfynol fydd ymwybyddiaeth pobl o'u hawl i dderbyn cefnogaeth ar ffurf eiriolaeth, eu lefelau defnydd a'r dulliau o sicrhau mynediad i wasanaethau eiriolaeth”.

Argymhelliaid 2: Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil gychwynnol i effeithiolrwydd ei model ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth er mwyn helpu i ganfod a yw'r model yn darparu'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.

Ariannu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol

Un newid amlwg ers cyhoeddi “Lleisiau Coll” yw bod ffynonellau ariannu awdurdodau lleol ar gyfer talu am wasanaethau eiriolaeth statudol wedi newid. Ar adeg casglu tystiolaeth ar gyfer “Lleisiau Coll” roedd llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio arian CYMORTH i brynu darpariaeth eiriolaeth annibynnol.

Mae mwyafrif yr awdurdodau lleol yn awr yn ariannu eiriolaeth yn uniongyrchol o arian craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol (15 o'r ymatebion a gafwyd gan 21 o awdurdodau lleol), neu o arian craidd y Gyfarwyddiaeth Plant, neu gan ddefnyddio cyfuniad o arian craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol ac arian grant Teuluoedd yn Gyntaf.

Nid yw darparwyr ac awdurdodau lleol yn teimlo bod hyn wedi peryglu annibyniaeth eu perthynas â'i gilydd, ac roedd yr awdurdodau lleol yn eglur nad oedd yn peryglu gallu darparwyr i herio'r awdurdod lleol ynghylch unrhyw ddiffygion o ran ymarfer neu weithdrefn. Roedd yr holl Benaethiaid Gwasanaeth a gafodd gyfweiliad yn croesawu'r her gan y darparwyr eiriolaeth,

gan eu bod yn gweld hynny'n agwedd bwysig ar werthuso'r gwasanaeth, a allai arwain at welliannau nid yn unig i'r plentyn roedd yr eiriolwr yn ei gefnogi, ond hefyd i blant a phobl ifanc eraill yn eu hawdurdod.

Agwedd negyddol o ran dibynnu ar wasanaeth unigol wrth gomisiynu eiriolaeth yw bod toriadau ariannol, mewn amgylchedd ariannol heriol, yn cael eu gwneud gan bennaeth gwasanaeth unigol. Fel y dywedodd un pennaeth gwasanaeth:

“Seiliwyd y ffigur a ddyrannwyd i eiriolaeth ar asesiad o anghenion gwreiddiol ac adolygiad blynyddol a oedd hefyd yn rhoi sylw i elfennau eraill oedd yn rhoi pwysau ar y gyllideb a beth gall yr awdurdod lleol ei fforddio... Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y trefniadau a ariannwyd o'r gyllideb yn fwy na chyfrifoldebau statudol yr awdurdodau lleol. Yn y flwyddyn gyfredol, yn dilyn adolygu'r trefniadau, mae'r gyllideb wedi cael ei lleihau er mwyn rhyddhau arian yn sgîl pwysau ariannol o gyfeiriadau eraill, ar yr un pryd â sicrhau bod modd cynnal ein gofynion statudol ar lefel sy'n adlewyrchu'r angen cyfredol.”

Dim ond dau awdurdod lleol sydd â threfniant sy'n golygu bod y Gwasanaethau Cymdeithasol, lechyd ac Addysg yn cyfrannu ar y cyd er mwyn ariannu'r ddarpariaeth eiriolaeth. Yn ôl dau awdurdod arall, mae addysg neu iechyd yn cyfrannu swm ariannol bach tuag at y ddarpariaeth.

Ar sail trafodaethau gydag awdurdodau lleol a darparwyr, ymddengys bod yr arfer o brynu gwasanaethau yn y fan a'r lle fel mater o drefn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen wedi dod i ben, ac nad yw'n cael ei ddefnyddio ond mewn amgylchiadau eithriadol, neu i dalu am fath arbenigol o ddarpariaeth.

Mae'n eglur nad yw disgwyliad Llywodraeth Cymru fod un pwynt cyswllt ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc agored i niwed ar draws ystod o feysydd gwasanaeth yn cael ei wireddu ar hyn o bryd. Yn wir, mae'r darparwyr eiriolaeth a'r staff awdurdod lleol y buom yn siarad â nhw yn awgrymu, mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, fod yr eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc agored i niwed mewn lleoliadau iechyd ac addysg yn fylchog dros ben, neu heb fod yn bodoli o gwbl ar hyn o bryd.

Yn sgîl y newid yn y tirlun partneriaeth, gan gynnwys y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn dod i ben, mae'n destun pryder sylweddol nad oes craffu strategol ar y ddarpariaeth eiriolaeth. Yn dilyn cyhoeddi'r Cynlluniau Sengl Integredig ym mis Ebrill 2013, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau bod eu trefniadau partneriaeth diwygiedig yn cael eu sefydlu'n gyflym, a hefyd bod materion plant a phobl ifanc yn bwysicach na dim. Roedd un awdurdod lleol yn pryderu y byddai symud i bartneriaeth bobl drosfwaol yn golygu colli'r ffocws ar blant a phobl ifanc. Mae hyn yn rhywbeth rwy'n teimlo y dylai'r Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth, sydd newydd ei ffurfio, edrych arno.

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2013, amlinellodd Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant ar y pryd, ei bwriad i gyhoeddi datganiad polisi ar eiriolaeth a fydd yn cyflwyno blaenoriaethau eiriolaeth Llywodraeth Cymru a'r camau mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd i sicrhau gwelliannau ym maes eiriolaeth. Er mwyn cynnal a hysbysu'r datganiad polisi, mae'r Dirprwy Weinidog wedi sefydlu Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth i Blant a Phobl Ifanc.

Argymhelliaid 3. Bod y Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth yn monitro'n flynyddol y trefniadau comisiynu ac ariannu sydd ar waith ar draws ardaloedd y 22 awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol priodol ar gael i blant a phobl ifanc sydd â hawl statudol i dderbyn gwasanaeth eiriolaeth.

Sut pennir y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol?

Un pryder penodol ynghylch ariannu a ddaeth yn amlwg iawn yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad hwn oedd dull rhai awdurdodau lleol o bennu lefel yr ariannu yr oeddent yn ei ddarparu ar gyfer eu gwasanaethau eiriolaeth. Cyfaddefodd dros hanner yr awdurdodau lleol eu bod yn seilio eu cyllidebau eiriolaeth ar ffigur hanesyddol a oedd, mewn rhai achosion, yn mynd nôl nifer o flynyddoedd. Yn ystod y cyfweiliadau a gynhaliwyd gennym ar gyfer yr adolygiad hwn, roedd yn aneglur sut cyfrifwyd y ffigur hanesyddol hwnnw. Soniodd nifer o awdurdodau hefyd fod pwysau ariannol a blaenoriaethau eraill yn helpu i bennu maint y gyllideb. Roedd yn syndod cyn lleied oedd yn seilio'u cyllideb ar asesiad o angen, er i ni gael ar ddeall bod hynny oherwydd anawsterau yn cynnal yr asesiad hwnnw, gan nad oedd unrhyw offer asesu ar gael.

Er ei bod yn ddealladwy bod rhaid gwneud dewisiadau anodd ynghylch dyrannu cyllidebau, mae'n bwysig deall faint dylai gwasanaeth eiriolaeth gostio. Nid yw'n dderbyniol bod darpariaeth gwasanaeth yn cael ei seilio ar wybodaeth sydd wedi dyddio ac sydd o bosib yn anghywir. Mae'r prosiect sydd â'r nod o gomisiynu gwasanaeth ar y cyd yn Ne Cymru wedi cytuno ar fformwla ariannu ar draws y pum awdurdod lleol sydd wedi bod yn trafod gwasanaeth wedi'i gomisiynu ar y cyd, gan geisio mynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r fformwla ariannu'n cynnwys cyfres o ragamcanion seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer targedau ymyrraeth, costau a'r galw am y gwasanaeth, sy'n galluogi partneriaid i bennu cost darparu eiriolaeth, a chyfrifo faint y gallant fforddio'i gomisiynu.

Mae prosiect De Cymru wedi tystio i'r ffaith bod modd i awdurdodau lleol a phartneriaid gytuno ar offeryn cyffredin ar gyfer asesu angen, yng nghyswllt darparu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol, a phennu lefel ariannu'r gwasanaeth ar sail asesiad o'r dystiolaeth.

Hoffwn weld offeryn o'r fath yn cael ei ddefnyddio ar draws holl ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, gan y byddai hynny'n helpu i ymateb i'r pryder a fynegais yn "Lleisiau Coll", sef nad oedd yn ymddangos bod dull cyson o bennu faint roedd awdurdod lleol yn ei wario ar eiriolaeth.

Argymhellad 4: Bod Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth yn hybu defnydd o "fformiwla ariannu" i bennu faint dylai awdurdodau lleol ei wario ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth, fel bod cysondeb yn y dull o wneud hynny ledled Cymru.

CYNNWYS PLANT A PHOBL IFANC YN Y BROSES GOMISIYNU

Ni allwn danbriso gwerth a manteision eiriolaeth i fywydau plant a phobl ifanc. Mae hawl plant a phobl ifanc i gael eu clywed yn uniongyrchol ar faterion sy'n effeithio arnynt yn elfen allweddol o ddull Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisi sydd wedi'i seilio'n gadarn ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai plant a phobl ifanc fedru cyrchu eiriolaeth a manteisio arni fel unigolion. Dylid ymgynghori â phlant a phobl ifanc hefyd ynghylch cynllunio a chomisiynu gwasanaethau eiriolaeth, ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn gwrandao ac yn ymateb i safbwyntiau a phrofiadau plant a phobl ifanc, a bod eu llais i'w weld yn glir yn dylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau, polisiâu ac ymarfer.

Mae fy ngwasanaeth cyngor a chefnogaeth yn dal i ddod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc sy'n gymwys i dderbyn eiriolaeth annibynnol ond sydd heb gael cynnig y cyfle hwn, ac mae'n bwysig bod gwasanaethau, trwy wrando ar blant a phobl ifanc, yn datblygu systemau priodol o wirio a chydbwyso er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd.

Yn ôl un o safonau Llywodraeth Cymru a gynhwyswyd yn y ddogfen ymgynghori "Darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc 0-25 yng Nghymru":

"2.3 Disgwylir y bydd plant a phobl ifanc yn cyfranogi yn y broses o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau eiriolaeth, yn ogystal â'r broses adolygu"

Y bwriad oedd bod pob awdurdod lleol a darparwr eiriolaeth yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses gomisiynu.

Rwy'n falch o weld bod yr awdurdodau hynny sydd wedi comisiynu gwasanaethau newydd yn ddiweddar, neu sydd wrthi'n comisiynu gwasanaethau newydd, wedi mabwysiadu'r safon hon mewn amrywiaeth o ffyrdd

- Mae Ynys Môn wedi cynnwys pobl ifanc trwy weithdai ymgynghori;
 - Bu'r tri awdurdod yng Ngwent a gomisiynodd wasanaeth yn ddiweddar yn cynnwys pobl ifanc o bob awdurdod mewn panel cyfweld, lle roedd ganddynt bleidlais lawn;
- Defnyddiodd y prosiect comisiynu eiriolaeth rhanbarthol yn Ne Cymru ddarparwr hyfforddiant allanol i hyfforddi grŵp o 20-25 o blant ar draws awdurdodau De Cymru ynghylch y broses gomisiynu a thendro;
- Bu Ceredigion yn cynnwys pobl ifanc yn y ddau gyfweiliad ar gyfer rheolwr y gwasanaeth eiriolaeth ar y cyd â Sir Benfro;
- Mae Powys yn bwriadu cynnwys plant a phobl ifanc yn y cam o ddylunio'r gwasanaeth, gan fod eu barn a'u profiadau'n bwysig i hysbysu sut olwg fydd ar y gwasanaeth;
- Cychwynnodd Bro Morgannwg banel cyfweld o bobl ifanc a chwaraeodd ran lawn yn y broses gontractio a chytuno ar y darparwr y dyfarnwyd y contract iddo;
- Cydnabu Wrecsam fod angen i'r awdurdod wneud mwy o ran cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses gomisiynu ar gyfer gwasanaethau a ddyluniwyd i blant a phobl ifanc. Ar hyn o bryd maent yn adolygu eu strategaeth gomisiynu ar gyfer Ataliaeth a Gofal Cymdeithasol i sicrhau ei bod yn cynnwys gwybodaeth am gyfranogiad plant a phobl ifanc wrth gomisiynu.

Roedd nifer bach o awdurdodau oedd heb gynnwys plant a phobl ifanc mewn unrhyw ran o'r broses gomisiynu, ond dywedodd pob un ohonynt eu bod yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol, pryd bynnag byddai gwasanaethau'n cael eu comisiynu eto. Bydd gennyf ddiddordeb mewn gweld sut mae'r awdurdodau hyn yn sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc yn natblygiad eu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae'n galonogol nodi bod datblygiad diweddar Llywodraeth Cymru, sef fframwaith safonau a chanlyniadau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc, yn cynnwys cyfres benodol o ganlyniadau ynghylch plant a phobl ifanc yn cyfranogi yn y broses o ddylunio, cynllunio, cyflwyno a gwerthuso gwasanaethau eiriolaeth. Rwy'n gobeithio y bydd y ddogfen safonau a chanlyniadau derfynol yn cael ei chyhoeddi'n fuan wedi'r ymarferiad ymgynghori, er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol a darparwyr i ddatblygu eu gwasanaethau.

PERSPECTIF DARPARWYR EIRIOLAETH

Roedd y tri darparwr eiriolaeth y buom yn siarad â nhw yn eitha unfryd eu barn ynghylch y trefniadau comisiynu cyfredol yng Nghymru. Eu prif bryderon oedd ariannu parhaus ar gyfer y gwasanaethau, effaith bosib rhanbartholi ar wasanaethau, a diffyg arweinyddiaeth neu gyfeiriad ar lefel genedlaethol.

Roedd pob un o'r tri darparwr eiriolaeth yn glir bod yr ariannu ar gyfer mwyafrif eu contractau eiriolaeth broffesiynol annibynnol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac roeddent yn disgwyl i'r tueddiad hwnnw barhau yn yr hinsawdd economaidd bresennol.

Honiad un darparwr oedd bod yr ariannu ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol wedi lleihau dros 50% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Cyn i'r darparwyr cyfredol ddechrau darparu gwasanaethau, roedd Cymdeithas y Plant a'r NSPCC wedi darparu gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, ac roedd y ddau gorff fel ei gilydd wedi darparu cyllid ychwanegol o'u hadnoddau eu hunain ar gyfer y gwasanaethau roeddent yn eu darparu.

Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru wedi codi o 2991 yn 1998 i 5415 yn 2011, gan olygu bod mwy o alw am wasanaethau eiriolaeth. Fe fu canfyddiad ymhlith darparwyr, ac mae hynny'n parhau, bod rhai awdurdodau lleol yn gweld eiriolaeth fel gwasanaeth ar y cyrion, sy'n golygu ei fod mewn mwy o berygl o ddioddef toriadau ar adegau heriol.

Gall hyn amlygu ei hun mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, cawsom ein hysbysu fod rhai awdurdodau'n ariannu eu darpariaeth eiriolaeth yn rhannol o'u cyllideb Teuluoedd yn Gyntaf, a mynegwyd pryderon y gallai ariannu drwy Teuluoedd yn Gyntaf, ar gyfer rhan o gontract, o bosib effeithio ar y ddarpariaeth eiriolaeth i achosion statudol eraill. Mae cyllid Teuluoedd yn Gyntaf wedi'i neilltuo, ac ni ellir ei ddefnyddio ond i ddarparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc mae eu teuluoedd yn bodloni meini prawf Teuluoedd yn Gyntaf. Mae profiadau cynnar yn awgrymu bod llawer llai o atgyfeiriadau o'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf nag yn sgîl hawl statudol.

Dywedodd un darparwr wrthym eu bod wedi wynebu gostyngiad yn eu cyllid, o ganlyniad i awdurdodau'n comisiynu gwasanaeth ar y cyd. Rhagdybiodd yr awdurdodau lleol y byddai llai o orbenion rheolaeth ar gyfer y darparwr, braidd dim anawsterau o ran ffiniau awdurdodau lleol, a gostyngiad yng nghostau gweinyddu'r darparwr. Fodd bynnag, nid oedd y darparwr yn teimlo bod y contract eiriolaeth oedd ganddynt gydag awdurdodau lleol yn adlewyrchu'n ddigonol faint o amser rheoli, gweinyddol a hyfforddi staff oedd yn angenrheidiol iddynt ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon.

Roedd darparwyr yn rhannu pryderon bod cyllidebau oedd yn lleihau, a disgwyliadau cynyddol gan awdurdodau lleol, yn lleihau'r amser cyswllt wyneb yn wyneb oedd ganddynt gyda phlant a phobl ifanc. Roeddent hefyd yn teimlo bod modd i ddisgwyliadau uwch gael effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau, yn sgîl amserau aros hwy a chapasiti cyfyngedig.

Soniodd pob un o'r darparwyr am rai cyfyngiadau yng nghyswllt y grwpiau o blant a phobl ifanc a allai gyrchu eiriolaeth, yn enwedig plant mewn angen. Roeddent hefyd o'r farn bod angen i ddarpariaeth eiriolaeth statudol graidd fod yn ei lle, cyn ystyried sut i ddarparu gwasanaeth eiriolaeth cyffredinol. Roedd consensws ymhlith y darparwyr fod disgwyliadau awdurdodau lleol wedi symud tuag at ddisgwyl mynediad cyffredinol at wasanaethau, heb unrhyw gyllid ychwanegol.

Y teimlad cyffredinol oedd bod contractau tymor hir yn gallu darparu manteision ychwanegol, gan gynnwys cefnogaeth i ganfod llifoedd ariannu amgen i ddarparu gwasanaethau ategol; darparu gwasanaethau eiriolaeth arbenigol; hwyluso byrddau diogelu iau; a chynrychioli amrywiol grwpiau plant. Fodd bynnag, mynegwyd rhai pryderon ynghylch canfyddiadau plant a phobl ifanc o annibyniaeth, pan fyddai'r darparwr eiriolaeth yn dod yn rhan ormodol o'r agenda gyfranogiad a hawliau plant yn lleol.

Fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae awdurdodau lleol yn pennu maint eu cyllideb eiriolaeth, ar sail yr hyn y gallant ei dalu, yn hytrach na'r hyn y mae angen iddynt ei dalu i ymateb i'r galw. Roedd barn darparwyr yn gymysg ynghylch y defnydd o 'fformwla ariannu' ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth, er bod cydnabyddiaeth y gallai ddarparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer pennu darpariaeth.

Ar hyn o bryd nid oes trosolwg na galw i gyfrif yng nghyswllt ariannu awdurdodau lleol yn ariannu na chomisiynu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol. Rwyf wedi dweud o'r blaen fy mod yn teimlo y byddai hon yn swyddogaeth briodol i Lywodraeth Cymru, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth ei chyflawni, a chael eu hysbysu ynghylch materion sy'n parhau yng nghyswllt cyllido a chomisiynu.

Er gwaethaf eu pryderon ynghylch ariannu eu gwasanaethau ac adnoddau yn y dyfodol, disgrifiodd pob un o'r darparwyr eiriolaeth y buom yn siarad â nhw berthnasoedd gwaith cadarnhaol gydag awdurdodau lleol, yr oedd rhai ohonynt wedi gweithio gyda nhw ers nifer o flynyddoedd.

DIWEDDGLŶ

Mae'n eglur i mi, ers cyhoeddi "Lleisiau Coll" a "Llyfr Achosion Arfer Gorau Lleisiau Coll", fod yr ymrwymiad cyffredinol i ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol mor gryf ag erioed ymhlith y mwyafrif o randdeiliaid. Fodd bynnag, mae rhwystredigaeth a dryswch aruthrol yn parhau o ran awdurdodau lleol ac asiantaethau partner yng nghyswllt comisiynu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol i blant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen. Mae hyn, yn rhannol, yn sgîl diffyg cyfeiriad strategol clir gan Lywodraeth Cymru.

Mae pawb ohonom yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod comisiynu cyson, effeithiol yn galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad i gefnogaeth eiriolwyr annibynnol ac elwa o hynny. Ond mae gan Llywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae drwy ddarparu arweiniad clir a chyfeiriad strategol. Nid ydynt wedi bod yn ddigon rhagweithiol yn hyn o beth ac mae angen iddynt weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, darparwyr eiriolaeth, ADSS, CLILC, ac yn bwysig, â phlant a phobl ifanc.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer "Lleisiau Coll" a'r adroddiad hwn, flwyddyn yn ddiweddarach, yn codi pryderon cyson ynghylch diffyg cyfeiriad gan Lywodraeth Cymru. Eto, carwn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfeiriad ynghylch y model a ffafir ganddynt ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth trwy gyhoeddi canllawiau statudol wedi'u diweddarau ac ategu eu disgwyliad

bod rhaid i lechyd ac Addysg weithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu ar y cyd ar gyfer plant a phobl ifanc sydd am gael mynediad at eiriolaeth.

Rwy'n pryderu am y ffaith nad yw'r gwasanaethau lechyd ac Addysg, ym mwyafrif yr ardaloedd awdurdod lleol, i'w gweld yn ymgysylltu'n llawn â datblygu gwasanaethau eiriolaeth a gomisiynir ar y cyd, ac rwy'n pryderu nad yw plant a phobl ifanc agored i niwed, sydd â hawl statudol i gefnogaeth eiriolaeth yn y lleoliadau hyn, o reidrwydd yn cael yr hyn y mae ganddynt hawl iddo. Os nad yw'r plant a'r bobl ifanc hynny'n derbyn eu hawliau, ni allaf ond dyfalu sut mae'r holl blant a phobl ifanc yn y lleoliadau hynny'n cael clywed eu lleisiau mewn penderfyniadau pwysig sy'n effeithio arnynt. Rwy'n argymhell bod hwn yn faes gwaith y dylai'r Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth, sydd newydd ei benodi, ei archwilio.

Rwy'n cael fy nghalonogi bod sawl awdurdod lleol wedi canfod ffordd i bennu cost darparu gwasanaeth eiriolaeth yn ardal eu hawdurdod lleol trwy fformwla ariannu cytunedig. Mae defnyddio fformwla ariannu yn golygu bod modd i'r gwasanaeth gael ei seilio ar asesiad o'r angen yn ôl tystiolaeth. Mae'r sefyllfa gyfredol lle pennir y gwasanaeth a ddarperir ar sail ffigur hanesyddol, nad yw'r comisiynwyr presennol yn ei ddeall, yn annerbyniol, ac mae rhaid iddi newid. Rwy'n credu bod gan Lywodraeth Cymru rôl yn hybu defnydd cyson o offeryn o'r fath, gan y bydd yn golygu bod modd cynnal trafodaeth ar sail tystiolaeth ynghylch gwir gost darparu gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol.

Os oes un newid y gallaf wneud cyfraniad pwysig tuag ato yn ystod fy nghyfnod yn swydd Comisiynydd Plant Cymru, y newid hwnnw fydd gwahaniaeth cadarnhaol o ran galluogi mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd â hawl statudol i dderbyn gwasanaeth o'r fath. Rwy'n gweld comisiynu effeithiol ar wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol, a sicrhau bod pawb sydd â hawl i dderbyn gwasanaeth yn ei dderbyn, yn gonglfaen ar gyfer unrhyw ddyheadau ehangach i ddarparu mynediad i eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc. Rhaid i ni sicrhau, fel man cychwyn ar gyfer darparu eiriolaeth yng Nghymru, fod yr holl blant a phobl ifanc sydd â'r hawl statudol hon i eiriolaeth yn ei derbyn.

Mae'n bryd cael arweiniad clir, atebolrwydd a darpariaeth systematig o wasanaethau, er mwyn sicrhau bod yr ymrwymiad i hawliau plant yn cael ei drosi'n ganlyniadau gweladwy a mesuradwy. Mae heriau i bawb sy'n gweithio dros blant a phobl ifanc yng Nghymru a gyda nhw i sicrhau ein bod ni'n gwneud pethau'n iawn dros blant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen. Rhaid i ni roi blaenoriaeth i ddarparu'r

hawliau y dylai plant a phobl ifanc eu derbyn, a sicrhau ein bod yn eu diogelu trwy roi llais iddynt.

Rwyf am weld cynnydd ar frys, a chamau allweddol gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i gyflawni newid i blant a phobl ifanc. Rwyf am gefnogi sefydlu'r Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth er mwyn iddo gyflawni yn unol â'i gylch gorchwyl a chefnogi rôl y Cadeirydd newydd wrth gyflawni'r gwaith hwn. Rwy'n credu bod y dystiolaeth a'r argymhellion yn "Lleisiau Coll", yn ogystal ag yn yr adroddiad hwn, yn amlygu'r angen am ganolbwyntio a blaenoriaethu ein gweithredu wrth ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol.

Rwy'n bwriadu parhau i alw Llywodraeth Cymruac awdurdodau lleol i gyfrif am ddarparu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol, a byddaf yn gwneud darn pellach o waith ddwy flynedd wedi lansio "Lleisiau Coll", yn cynnal adolygiad ehangach o'r cynnydd a wnaed, gyda ffocws ar yr hyn a gyflawnwyd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn erbyn yr argymhellion a roddais iddynt yn "Lleisiau Coll".

ARGYMHELLION

Gwneir yr argymhellion canlynol yn unol â'm pwerau a'm swyddogaethau sy'n deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001. Mae'r argymhellion hyn yn ychwanegol at y rhai a wnaed yn "Lleisiau Coll" ac maent yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Byddwn yn disgwyl i gamau gweithredu yng nghyswllt yr argymhellion hyn dderbyn sylw yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol:

- 1 Bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau ar y model a ffafrir ganddynt ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth trwy gyhoeddi canllawiau statudol wedi'u diweddarau.**
- 2 Bod Llywodraeth Cymru'n comisiynu ymchwil sylfaenol ar effeithiolrwydd eu model ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth er mwyn helpu i bennu a yw eu model yn darparu'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.**
- 3 Bod y Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth yn monitro, yn flynyddol, y trefniadau comisiynu ac ariannu sydd ar waith ar draws 22 ardal awdurdod lleol, i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol priodol ar gael i blant a phobl ifanc sydd â hawl statudol i dderbyn gwasanaeth eiriolaeth.**
- 4 Bod Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Arbenigwyr Gweinidogol ar Eiriolaeth yn hyrwyddo defnydd o 'fformwla ariannu' a fydd yn pennu faint y dylai awdurdodau lleol fod yn ei wario ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth, fel bod cysondeb yn hyn o beth ledled Cymru.**

Atodiad 1:

Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Eiriolaeth

Comisiynydd Plant Cymru

CYLCH GORCHWYL

Adolygiad o'r eiriolaeth annibynnol broffesiynol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen (yn ôl y diffiniad yn Adran 17 o Ddeddf Plant 1989)

Diffiniadau

Eiriolaeth annibynnol broffesiynol: gweler diffiniad jig-so Eiriolaeth (Llywodraeth Cymru) <http://wales.gov.uk/docs/caecd/publications/090803guidedeliveringadvocacyservicesmodelen.doc>

Plant sy'n Derbyn Gofal: gweler diffiniad Deddf Plant 1989 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents>

Rhai sy'n gadael Gofal: gweler Deddf Plant (yn Gadael Gofal) 2000 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2000/35/contents>

Plant Mewn Angen 1989: gweler Deddf Plant 1989 <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents>

Y Rhesymeg dros gynnal Adolygiad

Mae'r Comisiynydd a'i staff wedi cael ar ddeall nad yw pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal (PDG), pawb sy'n Gadael Gofal, na phob Plentyn mewn Angen yn medru ymarfer eu hawl statudol i wasanaeth eiriolaeth annibynnol.

Wrth gyfnewid plant ar gyfer ein hadroddiad ar y symud o ofal i annibyniaeth (a gyhoeddwyd yn haf 2011), yn sgîl gwaith achosion y bu ein gwasanaeth ymchwilio a chynghor yn ymwneud ag ef, ac yn sgîl trafodaethau a sgysiau a gawsom gyda darparwyr eiriolaeth, rydym yn gwybod bod yr eiriolaeth sydd ar gael ar gyfer PDG, Rhai

sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen yn anghyson ar draws Cymru.

Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ddarparu eiriolaeth annibynnol broffesiynol ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen, er ei fod yn debygol y bydd i'r gwersi a ddysgir o'r adolygiad hwn arwyddocâd ehangach i blant mewn lleoliadau eraill.

Pwerau Comisiynydd Plant Cymru

Mae gan y Comisiynydd b er i adolygu a monitro trefniadau ar gyfer darparu eiriolaeth trwy bwerau a swyddogaethau sy'n deillio o Adran 73 Deddf Safonau Gofal 2000 (gweler Atodiad 1).

Rhaid i'r adolygiad fod ar gyfer y pwrpas o ganfod a yw'r trefniadau yn effeithiol wrth ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc, ac i ba raddau mae hynny'n wir.

Casglu Gwybodaeth

Yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 (gweler atodiad 2), gall y Comisiynydd wneud cais gan y cyrff hynny sydd dan adolygiad am unrhyw wybodaeth mae e'n ystyried yn angenrheidiol er mwyn:

— adolygu a monitro trefniadau mewn perthynas ag eiriolaeth, ac

— asesu effaith methiant unrhyw berson i wneud trefniadau felly (gweler Atodiad 2).

Gall y Comisiynydd wneud cais am wybodaeth oddi wrth nifer o bersonau (gweler Atodiad 2).

Prif Nod

Bydd yr Adolygiad yn ymdrin â threfniadau eiriolaeth y canlynol:

— Gweinidogion Cymru

— awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cylch Gorchwyl

1. Casglu a chyflwyno barn a phrofiadau plant a phobl ifanc sydd â hawl i dderbyn cymorth eiriolaeth annibynnol proffesiynol, gan eu galluogi i gyfrannu at argymhellion adroddiad ffurfiol.
2. Dadansoddi cyd-destun deddfwriaeth a pholisi eiriolaeth ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen yng Nghymru.
3. Adolygu'r trefniadau comisiynu ac ariannu cenedlaethol a lleol ar gyfer darpariaeth eiriolaeth annibynnol broffesiynol i blant ar draws y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.
4. Canfod cryfderau a gwendidau yng nghyswllt y ddarpariaeth gyfredol o gymorth eiriolaeth annibynnol / proffesiynol ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen.
5. Darparu adolygiad annibynnol o'r strwythurau cenedlaethol a sefydlwyd i gynnal a datblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth annibynnol proffesiynol ar gyfer PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen.
6. Cynhyrchu adroddiad ffurfiol yn adlewyrchu barn a phrofiadau PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen yng nghyswllt mynediad i eiriolaeth annibynnol proffesiynol a'r ddarpariaeth honno, gan gyflwyno canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Comisiynydd ar gyfer rhanddeiliaid sy'n ymwneud â'r adolygiad.
7. Monitro'r argymhellion a geir yn yr adroddiad.

Methodoleg

Bydd fîm prosiect sy'n cynnwys y Comisiynydd a staff sy'n rhan o'i dîm yn cynnal yr adolygiad, a byddant yn gwneud y canlynol:

1. Cwrdd â PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen sydd â hawl statudol i gymorth eiriolaeth annibynnol broffesiynol a chasglu eu barn.
2. Sefydlu grŵp cyfeiriadol o bobl ifanc i roi cynghor a mewnbwn i'r adolygiad, gan gynnwys yr argymhellion ar gyfer yr adroddiad ffurfiol.
3. Mapio'r holl ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau ynghylch darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol proffesiynol i PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen yng Nghymru, gan gynnwys dadansoddiad cymharol â gwledydd eraill y DU.
4. Mapio'r ddarpariaeth bresennol o ran eiriolaeth annibynnol broffesiynol i blant a phobl ifanc yn y systemau derbyn gofal ar draws 22 awdurdod lleol Cymru, gan gynnwys adolygiad hanesyddol o'r gwariant ar y ddarpariaeth.
5. Casglu tystiolaeth gan ddefnyddio fformat strwythuredig gyda staff allweddol o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru, gan ganolbwyntio ar elfennau allweddol Safonau Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Eiriolaeth i Blant, yn cynnwys:
 - i. Uwch Reolwr Gwasanaethau Cymdeithasol
 - ii. Gweithwyr Cymdeithasol PDG, Rhai sy'n Gadael Gofal a Phlant mewn Angen
 - iii. Eiriolwyr a Rheolwyr darparwyr eiriolaeth annibynnol
 - iv. Swyddogion Adolygu Annibynnol

- v. Aelodau etholedig gyda chyfrifoldeb am blant a phobl ifanc
6. Casglu tystiolaeth o adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol trwy ddsbarthu holiadur strwythuredig.
7. Adolygu rôl, swyddogaeth a pherfformiad Uned Eiriolaeth Llywodraeth Cymru trwy ddadansoddi cynlluniau gwaith cyfredol a blaenorol, cyfweiliadau gyda staff yr Uned Eiriolaeth ac uwch weision sifil sy'n gyfrifol am y swyddogaeth hon, ac adborth gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant.
8. Adolygu rôl, swyddogaeth a pherfformiad y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol trwy ddadansoddi ei gylch gorchwyl, ei gynllun gwaith blynyddol, cofnodion ei gyfarfodydd a chyfweiliadau strwythuredig gydag aelodau'r bwrdd.
9. Cynnal sampl o gyfweiliadau mewn fformat strwythuredig gyda darparwyr eiriolaeth annibynnol broffesiynol.
10. Cynnal cyfres o gyfweiliadau strwythuredig gydag aelodau etholedig a gwleidyddion cenedlaethol sydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol proffesiynol neu sydd â diddordeb yn hynny.
11. Cynnal cyfres o gyfweiliadau strwythuredig ynghylch eiriolaeth annibynnol broffesiynol gydag ADSS, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chyrrff anllywodraethol perthnasol.
12. Paratoi adroddiad ffurfiol yn cyflwyno canfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Comisiynydd a'i anfon at Brif Weinidog Cymru, llyfrgelloedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a Dau D'r Senedd, a hefyd at y sefydliadau y mae eu trefniadau neu eu
- methiant i wneud trefniadau wedi cael eu hadolygu.
13. Paratoi adroddiad drafft a'i rannu gyda'r cyrrff sy'n rhan o'r adolygiad. Byddant yn cael cyfle i ymateb iddo drwy gywiro unrhyw gamgymeriadau ffeithiol ac ymateb i'r argymhellion. Mae'n bosib y rhoddir sylw i'r ymatebion wrth baratoi'r adroddiad terfynol.

Atodiad 2

Yr holiadur a anfonwyd at awdurdodau lleol

1. Sut mae gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol yn cael eu comisiynu yn eich awdurdod lleol chi? Gofynnir i chi gynnwys manylion unrhyw drefniadau comisiynu ar y cyd ag adrannau, sefydliadau neu awdurdodau lleol eraill neu drefniadau ar gyfer prynu gwasanaeth "yn y fan a'r lle".
2. Gofynnir i chi nodi pwy yw eich darparwr eiriolaeth cyfredol, a rhoi manylion hyd y contract presennol.
3. Ydych chi wedi newid eich darparwr eiriolaeth o fewn y 12 mis diwethaf? Ydych chi'n bwriadu tendro ar gyfer eich gwasanaeth eiriolaeth yn ystod y 12 mis nesaf?
4. Gofynnir i chi roi manylion sut mae eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn cael ei chyllido o fewn eich awdurdod lleol. Gofynnir i chi roi manylion y ffynhonnell ariannu ar gyfer y gwasanaeth yma e.e. cyllid craidd y Gwasanaethau Cymdeithasol, cyllid a rennir gyda gwasanaethau eraill, arian grant, arall.
5. Sut rydych chi'n cyrraedd y ffigur rydych wedi ei ddyrannu ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol? Ydy e wedi ei seilio ar asesiad blynyddol o angen? ar beth gall y gwasanaeth ei fforddio yn ymarferol yn yr hinsawdd economaidd gyfredol? ar ffigur hanesyddol? ar rywbeth arall?
6. Ydy eich gwasanaeth yn gosod unrhyw gyfyngiadau ar ba blant a phobl ifanc sy'n gallu cyrchu eiriolaeth?
7. Beth yw cyfanswm eich gwariant ar eiriolaeth broffesiynol annibynnol? Ydy hyn wedi newid yn ystod y 12 mis diwethaf?
8. Ydych chi'n rhagweld y bydd eich cyllid ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol yn newid yn ystod y 24 mis nesaf?
9. Ydych chi wedi derbyn unrhyw dendrau ar y cyd gan ddarparwyr eiriolaeth ar gyfer unrhyw gontractau rydych chi wedi eu hysbysebu?
10. Sut rydych chi'n cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses gomisiynu?
11. Yn eich barn chi, beth yw prif nodweddion cadarnhaol eich trefniadau comisiynu, a beth yw'r prif heriau a/neu anawsterau?

www.complantcymru.org.uk
www.childcomwales.org.uk